

Cyfraith Mark Allen

Diogelwch dŵr ac atal boddi

Awst 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddDeisebau](https://twitter.com/SeneddDeisebau)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyfraith Mark Allen

Diogelwch dŵr ac atal boddi

Awst 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDeisebau

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Jack Sargeant AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Joel James AS
Ceidwadwyr Cymreig



Buffy Williams AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	6
1. Cefndir	7
2. Y ddeiseb a gwaith y pwyllgor	9
Y ddeiseb	9
Diogelwch dŵr yng Nghymru	10
Diogelwch o amgylch cronfeydd dŵr	13
Addysg.....	14
Cortynnau taflu.....	15
Nofio mewn cronfeydd dŵr.....	16
Asesiadau risg	16
3. Tystiolaeth teuluoedd	20
Arwyddion	20
Addysg a chodi ymwybyddiaeth.....	20
Lleiafrifoedd ethnig a statws economaidd-gymdeithasol	21
Offer diogelwch:.....	21
Argymhellion	24
Atodiad A: Tystiolaeth dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad	25
Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	25
Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig	25

Mae'r adroddiad hwn yn nodi argymhellion a chasgliadau'r Pwyllgor Deisebau, ac yn darparu lincs i'r dystiolaeth a ystyriwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â'r ddeiseb a ganlyn:

Deddf Mark Allen: rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru

Fe foddodd Mark Allen, oedd yn 18 oed, ar ôl neidio i mewn i gronfa rewlyd ar ddiwrnod poeth ym mis Mehefin 2018. Ym mis Mai 2019, fe fuom yn gwylio 3 cortyn taflu'n cael eu gosod wrth y fan lle buodd farw. Gellid bod wedi achub Mark pe byddent yno'n barod.

Rydym ni, teulu a ffrindiau Mark, o'r farn y dylai fod yn gyfraith gwlad i osod cortynnau taflu fel y rheini a osodwyd lle bu farw Mark, mewn lleoedd dynodedig o amgylch pob cronfa ddŵr, llyn, camlas ac ati. Wrth siarad â phobl sy'n gweithio ym maes diogelwch dŵr, e.e. gwasanaethau tân ac ati, mae cortynnau o'r fath wedi achub llawer o fywydau. Rydym ni eisiau achub bywydau ac arbed pobl rhag gorfod dioddef y torcalon a'r trasiedi o golli rhywun y maen nhw'n garu yn boddi.

Helpwch ni i wneud gwahaniaeth cadarnhaol er cof am Mark.

Diolch i chi, teulu a ffrindiau Mark

Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod y cyfnod cymharol fyr yr ydym wedi bod yn trafod y ddeiseb hon mae o leiaf tri pherson ifanc arall wedi colli eu bywydau drwy foddï yng Nghymru. Rhaid inni wneud yn well fel gwlad, a gobeithio y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi hwb i bawb sy'n gweithio'n galed i wneud hynny.

Bu farw mab Leeanne Bartley, Mark, mewn cronfa ddŵr rewlyd ar ddiwrnod cynnes o haf.

Er cof amdano, mae hi wedi ymgyrchu'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth am ddiogelwch dŵr trwy greu deisebau, siarad â gwleidyddion, ymweld ag ysgolion, gweithio gyda'r cwmni dŵr ar brosiect i osod cortynnau taflu ac, yn fwyaf diweddar, ysgrifennu llyfr i blant iau ar ddiogelwch dŵr.

Yn ystod ein hymchwiliad sy'n edrych yn fanwl ar y materion sy'n codi o'r ddeiseb hon, rydym wedi clywed tystiolaeth gan Ddiogelwch Dŵr Cymru, cwmnïau cyfleustodau dŵr, Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA), a Chyfoeth Naturiol Cymru i gael darlun llawnach o'r cyd-destun, yr heriau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella diogelwch dŵr ac atal boddi. Rydym wedi ymweld â Chronfa Ddŵr Pontsticill, er mwyn gweld drosom ein hunain yr anawsterau sydd ynghlwm wrth wneud safleoedd helaeth yn ddiogel.

Ac yn bwysicaf oll, clywsom gan y deisebydd a theuluoedd eraill sydd wedi colli anwyliaid i foddï. Rydym wedi clywed am yr effaith ddinistriol y mae trasiedi o'r fath wedi'i chael ar eu bywydau, ond hefyd am eu hymroddiad diwyd i godi ymwybyddiaeth ac atal colli bywydau trwy foddï yn y dyfodol. Rydym yn ddiolchgar am eu hamser, eu gonestrwydd, a'u parodrwydd i rannu eu trawma fel y gallai pobl eraill elwa.

Yr adroddiad hwn, a'r argymhellion a wnawn, yw ein hymgais i gefnogi eu hymgyrch, a sicrhau nad oes yn rhaid i deuluoedd eraill fynd drwy'r daith ofnadwy honno.

JACK SARCEANT.

1. Cefndir

1. Mae tua **400 o bobl yn boddi** yn y DU bob blwyddyn. I bobl rhwng 5 a 24 oed, boddi yw'r ail brif beth sy'n peri marwolaeth ddamweiniol.
2. Mae'r gwaith o ystyried y ffordd orau o **sicrhau diogelwch dŵr ac atal** boddi wedi bod yn mynd rhagddo ers y 1960au ac mae gwaith ar y gweill i addysgu, codi ymwybyddiaeth a chynyddu diogelwch er mwyn atal rhagor o fywydau rhag cael eu colli.
3. Fe gafodd **Diogelwch Dŵr Cymru** ei sefydlu yn 2017. Mae'n grŵp o dros 30 o gyrrff cysylltiedig sy'n gweithio ar ddiogelwch dŵr ac atal boddi yng Nghymru. Fe lansiodd **Strategaeth Atal Boddi** Cymru ym mis Rhagfyr 2020, ac mae'n tynnu sylw at y ffaith bod 45 o bobl, ar gyfartaledd, yn colli eu bywydau trwy fodd bob blwyddyn yng Nghymru. Fe wnaeth Lesley Griffiths AS – Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd – **nodi y bydd y strategaeth yn:**

"...rhoi amlinelliad clir o sut byddwn yn gweithio mewn cydweithrediad â sefydliadau partner i ymgysylltu, addysgu a chodi ymwybyddiaeth o beryglon dŵr i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu."

4. Fodd bynnag, mae llawer o ymgyrchwyr yn galw am weithredu mwy rhagweithiol i atal marwolaethau trwy fodd yn y dyfodol. Mae nifer o ymgyrchwyr wedi colli anwyliaid ac yn benderfynol o sicrhau nad yw pobl eraill yn colli teulu neu ffrindiau mewn ffordd debyg.
5. Leeanne Bartley greodd y ddeiseb hon yn dilyn marwolaeth drasig ei mab. Dim ond 18 oed oedd Mark pan fu farw ym mis Mehefin 2018 ar ôl neidio i mewn i gronfa rewlyd ar ddiwrnod poeth. Mae'r teulu'n credu y gallai fod wedi cael ei achub pe bai cortyn taflu ar gael ger y dŵr.
6. Ers hynny, mae cortynnau taflu, sef rhaff wedi'i gosod yn llac mewn bag a fydd yn rhyddhau wrth ei agor, wedi cael eu gosod yng nghronfa ddŵr Gorton ym Manceinion, lle y bu Mark farw. Yn ôl **Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub**, i rywun sydd wedi syrthio i'r dŵr mae'r cortynnau hyn yn achubiaeth.
7. Mae'r ddeiseb wedi codi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd yn barod, ar ôl casglu cyfanswm o 11,027 o lofnodion. Mae'n rhan o ymgyrch ehangach gan fam Mark i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, addysgu'r cyhoedd ac ymgyrchu dros weithredu i hyrwyddo diogelwch dŵr ac atal boddi.

8. Fel rhan o'r ymgyrch hon cyflwynwyd **deiseb debyg** i Lywodraeth y DU yn galw am deddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i osod cortynnau taflu o amgylch cyrff agored o ddŵr a gefnogwyd gan 103,531 o bobl. Cynhaliwyd dadl ar hyn yn Senedd y DU ar 24 Ionawr 2022. Yn ei hymateb dywedodd Kemi Badenoch AS, y Gweinidog dros Ffyniant Bro, y bydd y Llywodraeth yn ystyried opsiynau i amddiffyn y cyhoedd sy'n defnyddio cyrff agored o ddŵr, gan gynnwys cyflwyno deddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i osod gorsafoedd cortynnau taflu.

2. Y ddeiseb a gwaith y pwyllgor

Mae'r bennod hon yn manylu ar hynt y ddeiseb, a gwaith y Pwyllgor o ran ymchwilio i sut i symud y ddeiseb yn ei blaen.

Y ddeiseb

9. Agorwyd y ddeiseb ym mis Mawrth 2021, a chasglwyd 11,027 o lofnodion. Caeodd ar 29 Hydref 2021. Yn ei drafodaeth gyntaf ar y ddeiseb hon ar 29 Tachwedd 2021, trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, a ddywedodd:

"Croesawaf y gwaith sy'n cael ei wneud gan ein partneriaid cyflenwi i addysgu a mynd i'r afael â phryderon diogelwch megis yr ymgyrch gan y cwmnïau dŵr diogelwch ger cronfeydd dŵr. Yn benodol, mae Strategaeth Atal Boddi a gyhoeddwyd gan Diogelwch Dŵr Cymru yn ymrwymo i leihau nifer y marwolaethau yn sgil boddi a chadw ein cymunedau'n ddiogel o amgylch dŵr. Lluniwyd Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026 gan grŵp Diogelwch Dŵr Cymru, ffrwyth cydweithredu rhwng unigolion, cymunedau, elusennau a sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat sydd â diddordeb mewn diogelwch dŵr ac atal boddi. Ei nod yw lleihau nifer y marwolaethau a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â dŵr yng Nghymru drwy hyrwyddo pwysigrwydd dull cyson ac effeithiol o ymdrin â diogelwch dŵr."

10. Mynegodd y deisebydd ei siom gyda'r ymateb a nododd pa mor bwysig yw clywed gan y gwasanaethau brys ac arbenigwyr diogelwch dŵr. Penderfynodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth ac edrych ymhellach ar yr alwad am fwy o ddiogelwch dŵr ledled Cymru.

11. Er bod y ddeiseb yn galw am osod cortynnau taflu o amgylch pob safle dŵr agored, cytunodd y Pwyllgor i ganolbwyntio ar sut i wella diogelwch dŵr mewn safleoedd dŵr sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus neu sydd dan berchnogaeth gyhoeddus, a chanfod atebion rhagweithiol. Cytunwyd ar hyn yn dilyn cyfarfod rhwng y deisebydd, sef Leeanne Bartley, a Chadeirydd y Pwyllgor, gan gydnabod yr her sylweddol o drafod pob safle dŵr agored.

12. Cynhaliwyd sesiynau tystiolaeth ar 10 Ionawr 2022 gyda chwmnïau dŵr a gweithwyr proffesiynol ym maes diogelwch dŵr. Mae tystiolaeth ysgrifenedig hefyd wedi dod i law gan Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau a'r deisebydd. Ar 16 Mai 2022 aeth yr Aelodau ar ymweliad â Chronfa Ddŵr Pontsticill i weld drostynt eu hunain yr heriau o sicrhau bod safleoedd dŵr agored yn ddiogel.

13. Ar 25 Mai 2022, cyfarfu aelodau'r Pwyllgor ar-lein â theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid drwy foddi. Buom yn gwrandao ar eu profiadau ingol a'u hymrwymiad ysbrydoledig i sicrhau newidiadau cadarnhaol ar gyfer y dyfodol. Mae'r Pwyllgor yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth, ac a fu o gymorth i lywio ein trafodaeth a'n casgliadau.

Diogelwch dŵr yng Nghymru

14. Darparodd Chris Cousens, Cadeirydd Diogelwch Dŵr Cymru, y cyd-destun, gan nodi:

"..around 50 people a year lose their lives to water-related fatalities in Wales every year. The rate of accidental drowning per head of population here in Wales is around double that of the UK as a whole. The number of accidental drowning deaths, sadly, is also higher than the number of deaths in fires, for example, motorcycle accidents and cycling—three other very high-profile causes of accidental deaths."

15. Yn ôl Diogelwch Dŵr Cymru, mae mwy na 1,750 o ddigwyddiadau yn ymwneud â dŵr sy'n galw am ymateb brys bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau chwilio ac achub a golau glas, ond nid yw'n cynnwys digwyddiadau sy'n galw am gymorth gan achubwyr bywydau ar draethau Cymru.

16. Gan fod Cymru wedi gweld twf sylweddol mewn gweithgareddau awyr agored dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys padlfyrddio ar eich sefyll a nofio dŵr agored, mae'n debygol y bydd mwy o bobl yn mynd i drafferthion ac angen cael eu hachub. Bydd hyn yn cynyddu'r galw ar y gwasanaethau perthnasol.

17. Dywedodd Bleddyn Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, fod dyletswydd statudol ar y gwasanaeth tân ac achub i ymateb i ddigwyddiadau dŵr mewndirol. Disgrifiodd sut y byddai digwyddiad achub fel arfer yn cynnwys tua 20 o ddiffoddwyr tân, gan gynnwys arbenigwyr i gymryd rhan mewn achosion o achub sy'n golygu nofio neu ddefnyddio cychod er enghraifft.

18. Mae Diogelwch Dŵr Cymru yn ffrwyth cydweithredu rhwng unigolion, cymunedau, elusennau a sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat sydd â diddordeb mewn diogelwch dŵr ac atal boddi. Eu nod yw lleihau nifer y marwolaethau a'r digwyddiadau yn ymwneud â dŵr yng Nghymru. Mae'r grŵp yn gweithio i hyrwyddo ymagwedd gyson a chyffredin tuag at ddiogelwch dŵr, hyrwyddo atal boddi ac addysg ac ymwybyddiaeth yn ymwneud â diogelwch dŵr. Mae'n gweithio gan ddefnyddio dull amlasiantaethol cydweithredol i nodi a thargedu

¹ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 12

meysydd risg ac yna datblygu a gweithredu strategaeth atal boddi. Ym mis Rhagfyr 2020, cyhoeddodd Diogelwch Dŵr Cymru y **strategaeth atal boddi** gyntaf yng Nghymru.

19. Nod y strategaeth yw sicrhau dim marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr ac mae'n cydnabod bod modd atal pob marwolaeth sy'n gysylltiedig â dŵr.² Gobaith Chris Cousens yw bod y strategaeth yn alwad i bawb weithredu a chwarae eu rhan. *"And if everybody plays their part in Wales, we feel we can make a difference to those drowning numbers, which are too high."*³

20. Fe wnaeth Diogelwch Dŵr Cymru gydweithredu â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r strategaeth. Fodd bynnag, nodwyd bod angen ffurfioli'r bartneriaeth hon gyda Llywodraeth Cymru a sicrhau trefniadau ariannu i alluogi Diogelwch Dŵr Cymru i fwrw ymlaen â'r gwaith pwysig hwn. Mae galwadau am ddyrannu'r cyfrifoldeb dros atal achosion o foddi a diogelwch dŵr i Weinidog penodol. Er bod cylch gwaith Strategaeth Atal Boddi Cymru 2020-2026 yn eang ac yn drawsadrannol, amlygodd Chris Cousens yr hyn a ganlyn: *"no-one has overall responsibility for the issue at present, and that can cause issues for policy formation and also funding solutions."*⁴ Soniodd am y cais am gyllid a wnaed gan Diogelwch Dŵr Cymru i helpu gyda chyflawni'r Strategaeth Atal Boddi i'w galluogi i fod ar yr un lefel â grwpiau diogelwch dŵr yr Alban a'r DU.

21. Y llynedd, cynhaliodd Llywodraeth y DU drafodaeth grŵp ar atal achosion o foddi, gan ddod ag adrannau amrywiol o'r llywodraeth ynghyd er mwyn symud pethau ymlaen. Mae Diogelwch Dŵr Cymru wedi awgrymu y gallai hyn fod yn ddull adeiladol yng Nghymru.

22. Mae addysg yn hanfodol i sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiogelwch dŵr. Un o brif dargedau'r strategaeth atal boddi yw sicrhau y dylai pob plentyn gael y cyfle i ddysgu nofio a chael addysg diogelwch dŵr yn yr ysgol gynradd a lle bo angen yng Nghyfnod Allweddol 3. Amlygodd Chris Cousens: *"more children die, sadly, in the water than on bikes and in fires, yet there are really established cycling proficiency and fire prevention campaigns in schools, and education has also halved the number of road fatalities."*⁵ Mae'n pwysleisio gwerth addysg gydlynol a rhaglen diogelwch dŵr mewn ysgolion⁶ ac y byddai Diogelwch Dŵr Cymru yn falch o helpu i fwrw ymlaen â dull o'r fath.

23. Mewn egwyddor, mae Diogelwch Dŵr Cymru yn cefnogi cynigion Llywodraeth Cymru i ehangu mynediad at ddyfrffyrdd mewndirol at ddibenion hamdden. Mae Llywodraeth Cymru'n

²Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 12

³Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 13

⁴Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 42

⁵Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 44

⁶Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 44

ystyried cyflwyno deddfwriaeth i ddarparu ar gyfer mynediad ehangach i gefn gwlad at ddibenion hamdden. Mae'n **nodi fel a ganlyn**:

*"Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw hawliau cyhoeddus statudol cyffredinol mewn perthynas â mynediad i ddyfroedd mewndirol at ddibenion hamdden yng Nghymru, ac ychydig iawn o gyfraith gyffredin."*⁷

24. Fodd bynnag, mae'n bwysig annog pobl i ddefnyddio'r dŵr yn ddiogel ac mae'n hanfodol bod unrhyw fynediad ychwanegol yn cael ei ganiatáu mewn ffordd reoledig nad yw'n rhoi pobl mewn unrhyw berygl diangen. Nododd Bleddyn Jones: *"we need to really understand how we teach people the dangers of cold water shock, the danger of going in after your dog, for example, and, if you are a recreational user in the water, what are the safety measures required and how you save yourself if need be."*⁸ Felly, mae'n hanfodol bod y safleoedd hyn yn cael eu hasesu'n briodol o ran risg yn rheolaidd.

25. Er na fu unrhyw gyfathrebu uniongyrchol rhwng **Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru, yr Is-grŵp Mynediad at Ddŵr**, a sefydlwyd i roi blaenoriaeth i faterion dŵr mewndirol, a Diogelwch Dŵr Cymru, mae llawer o orgyffwrdd o ran eu haelodau. Byddai Diogelwch Dŵr Cymru yn croesawu sefydlu cysylltiadau ffurfiol i symud y gwaith yn ei flaen.

26. Mae gwybodaeth a data am farwolaethau ac achub yn rhan bwysig o asesiadau risg. Y gronfa ddata digwyddiadau dŵr, WAID, yw'r ffynhonnell fwyaf dibynadwy ac mae'n darparu data am farwolaethau gyda digon o wybodaeth am leoliad i'w ystyried. Mae Diogelwch Dŵr Cymru yn cydnabod yr angen i wella ansawdd y data sydd ar gael am ddigwyddiadau ar ddŵr nad ydynt yn angheuol ac maent yn gweithio ar hyn fel rhan o'u strategaeth.

27. Cyfeiriodd Bleddyn Jones at ymchwil diweddar gan RoSPA a oedd yn dangos y dulliau amrywiol a ddefnyddir gan awdurdodau lleol ledled y DU i reoli ac asesu safleoedd dŵr. Dywedodd 89 y cant o'r awdurdodau lleol fod diogelwch dŵr yn fater pwysig iddynt, ond dim ond 50 y cant ohonynt oedd â pherson neu bersonau sy'n gyfrifol am ddiogelwch dŵr. Dim ond 22 y cant ohonynt oedd â pholisi neu gynllun diogelwch dŵr penodol yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw, ac roedd eraill yn cael eu datblygu. Roedd hefyd yn werth nodi mai dim ond pedwar cyngor yng Nghymru a gymerodd ran. Mae Diogelwch Dŵr Cymru yn credu bod angen gwneud mwy o waith i gefnogi awdurdodau lleol a thirfeddianwyr eraill i flaenoriaethu

⁷ Mynediad i Ddyfrffyrdd Mewndirol Bwriad Polisi Amlinellol Llywodraeth Cymru Fforwm Mynediad Cenedlaethol 05/11/19

⁸ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 26

diogelwch dŵr, gan gynnwys rhagor o eglurder ac arweiniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

28. Mae'r cwmnïau cyfleustodau, sy'n gyfrifol am gronfeydd dŵr, yn asesu eu lleoliadau o ran risg yn rheolaidd. Er bod eu dull wedi bod yn waharddol yn draddodiadol, sy'n ddealladwy oherwydd y risgiau, canmolodd Diogelwch Dŵr Cymru y ffaith fod Dŵr Cymru wedi newid ei ddull yn 2021. Mae hyn yn cydnabod, er y rhybuddiwyd pobl i beidio â mynd i mewn i'r dŵr, fod llawer o bobl wedi parhau i wneud hynny, gan roi eu hunain mewn perygl. Mewn partneriaeth â Nofio Cymru o dan gynllun Cyfleuster Dŵr Diogel Cymru, maent wedi dynodi nifer fach o'u cronfeydd dŵr i fod yn safleoedd nofio dŵr agored 'diogel' a reolir. Mae'n rhoi dewis i bobl o le sydd wedi'i asesu o ran risg ac sy'n cael ei reoli.

29. Mae cortyn neu fag taflu yn un o amrywiaeth o fathau o offer achub sy'n cael ei osod ar ymyl y dŵr, ac mae'r deisebydd yn credu pe bai cortyn taflu wedi bod ar gael yn y gronfa ddŵr lle bu farw ei mab Mark, efallai y byddai wedi cael ei achub. Mae Bleddyn Jones yn cefnogi'r defnydd o gortynnau taflu ac yn cadarnhau bod y gwasanaeth tân ac achub yn eu defnyddio'n effeithiol. Fodd bynnag, mae'n pwysleisio bod angen addysgu defnyddwyr hamdden ynghylch beth yw cortynnau taflu, sut maent yn edrych, sut i'w defnyddio a sut byddech yn eu defnyddio'n effeithiol⁹. Yr her yw addysgu pobl i'w cynnal, eu cadw mewn cyflwr da i'w defnyddio, pan fyddant yn aml yn cael eu fandaleiddio neu eu dwyn, ond hefyd sut i'w defnyddio'n effeithiol. Cyfeiriodd Bleddyn at enghraifft gadarnhaol o weithio mewn partneriaeth â'r RNLI i ddatblygu cynllun ymatebwyr ar lan y dŵr, lle mae tafarnwyr ym Mae Caerdydd yn cael eu haddysgu sut i ddefnyddio cortyn taflu.

30. Cyfeiriodd Chris Cousens at adolygiad llenyddiaeth a gynhaliwyd gan Water Safety Scotland o gyhoeddiadau byd-eang ynghylch defnydd y cyhoedd o offer achub, megis cortynnau taflu, ac mai ychydig iawn o dystiolaeth gadarn sydd ar gael ynghylch pa mor aml y cânt eu defnyddio neu ba mor effeithiol ydynt. Fodd bynnag, mae astudiaethau achos lle mae bywydau wedi'u hachub. *"I think it's important that throw lines aren't seen as the answer to keeping people safe in open water, and that organisations responsible for managing open water sites look at all the options, including throw lines".*¹⁰

Diogelwch o amgylch cronfeydd dŵr

31. Roedd y dystiolaeth gan United Utilities, Dŵr Cymru a Hafren Dyfrdwy, sy'n berchen ar gronfeydd dŵr ac yn eu rheoli, yn pwysleisio'n glir mai atal yw eu blaenoriaeth gyntaf a phwysicaf. Mae atal pobl rhag mynd i mewn i gronfa ddŵr yn bwysig, o ystyried y risg sylweddol

⁹ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 35

¹⁰ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 38

y bydd rhywun yn profi sioc dŵr oer gyda chyrrff dŵr dwfn o'r fath. Pwysleisiwyd hefyd nad yw cronfeydd dŵr yn gyrrff naturiol o ddŵr ac y dylid eu hystyried fel 'ffatrioedd ar gyfer dŵr' gydag offer a pheiriannau cudd ac argloddiau dwfn.

32. Dywedodd pob un o'r cwmnïau dŵr mai diogelwch yw eu blaenoriaeth, ar gyfer y cyhoedd a'u staff sy'n gweithio o amgylch cronfeydd dŵr. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyn yn her pan fo cyrrff mawr o ddŵr a milltiroedd o draethlin i'w rheoli.

33. Yn ogystal ag arwyddion, mae ceidwaid ar rai safleoedd, a mesurau diogelwch ychwanegol yn ystod misoedd yr haf mewn cronfeydd dŵr prysur.

Addysg

34. Mae arwyddion yn chwarae rhan hanfodol wrth atal a dywedodd Paula Steer, Cyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a Llesiant a Gwasanaethau Ystadau yn United Utilities, fod llawer o arwyddion a byrddau gwybodaeth o amgylch eu cronfeydd dŵr am beryglon dŵr dwfn, yn ogystal ag arwyddion 'cadw draw'.

35. Mae codi ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd am beryglon dŵr oer a dwfn mewn cronfeydd dŵr yn elfen allweddol o waith atal pob sefydliad. Dywedodd Dominic Robinson, Arweinydd Profiad Ymwelwyr ar gyfer Hafren Dyfrdwy, eu bod yn codi ymwybyddiaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg a'r radio ac mae United Utilities wedi datblygu ei dull cyfathrebu *"particularly using social media and reaching that right target group—so, young teenagers, often, and often, very sadly, it's boys as well—but targeting specific audiences around the dangers."*¹¹

36. Roedd consensws clir bod addysg yn hollbwysig ac mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud i addysgu plant a phobl ifanc yn arbennig. Yn ystod y ddwy flynedd cyn y pandemig roedd Dŵr Cymru wedi darparu gwersi ar ddiogelwch dŵr ac addysg dŵr i tua 18,500 o ddisgyblion. Ymunodd United Utilities â rhai o'r teuluoedd oedd wedi colli anwyliaid a'r North West Theatre Arts Company, i greu cynhyrchiad a oedd yn ail-greu marwolaeth drist bachgen ifanc. Aeth y sioe i ysgolion uwchradd ac roedd yn effeithiol iawn.

37. Crynhodd Dominic Robinson y materion a'r neges ar gyfer y dyfodol:

"I think what's really important is finding the ways of engaging as well. Paula touched on the powerful testimony that some of the families have brought to some of that engagement, and from our perspective, being able to innovate in that I think is really key; finding ways of getting to younger people some of

¹¹ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 35

the hard-hitting messages is going to be important. I think that education piece—as others have highlighted—is about collaboration, because it's across sectors. We are equally engaging with schools as a water company as well, regularly within our region, but there are others who also do that, and I think doing that in a co-ordinated fashion across sectors, and as an industry as well, I think, is really important for the future.”¹²

Cortynnau taflu

38. Datblygodd United Utilities gynllun peilot gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf a rhai o'r teuluoedd oedd wedi colli anwyliaid wrth foddi. Roedd hyn yn cynnwys creu bwrdd gwybodaeth gyda chortynnau taflu, a gosodwyd 20 ohonynt ar draws wyth safle.

39. Disgrifiodd Paula Steer y bwrdd fel a ganlyn:

“quite big and very visual, so it's red in colour, so it's making people aware of the dangers. They have a locked box that contains a throwline and a whistle, and it has a keypad to enter to open it. We also have unique identifiers, so working with the fire and rescue service, one of the things we identified was actually that these sites are very vast and often can be in rural locations, and it's quite difficult for the emergency services to pinpoint the exact location when that 999 call is made, so they have a unique identifier on them as well. So, the intention is that a member of the public would dial the emergency services, they would give the code on the board, and that they would give them a code to release the box, so basically to take the throwline out.”¹³

40. Fodd bynnag, ers gosod y cortynnau taflu nid oes unrhyw un wedi'u defnyddio ond mae eu cynnal a'u cadw wedi bod yn her aruthrol gyda phob un ohonynt wedi'u fandaleiddio, gan gynnwys difrod i'r byrddau, y bocsys wedi'u torri a chortynnau taflu wedi'u dwyn. Yn anffodus mae hyn wedi digwydd yn rheolaidd.

41. Esboniodd Dominic Robinson fod gan eu ceidwaid gortynnau taflu ar eu cerbydau, y maent wedi'u hyfforddi i'w defnyddio. Mae'r ceidwaid yn patrolio cronfeydd dŵr yn rheolaidd lle mae mynediad i'r cyhoedd ac mae angen iddynt wybod sut i'w defnyddio i'w defnyddio'n effeithiol.¹⁴ O'u profiadau eu hunain ac eraill, mae Hafren Dyfrdwy yn credu bod gosod

¹² Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 118

¹³ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 69

¹⁴ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 78

cortynnau taflu yn anfon neges ddryslyd, gan awgrymu i'r cyhoedd ei bod yn ddiogel mynd i mewn i'r dŵr.

42. Dywedodd Nikki Kemmery nad oedd Dŵr Cymru wedi dibynnu ar osod cortynnau taflu yn gyffredinol, ond yn hytrach "*more training our rangers so that they can effect rescue, and also monitoring those sites*".¹⁵ Yn debyg i'r cwmnïau dŵr eraill, mae Dŵr Cymru'n monitro cronfeydd dŵr yn ystod tywydd cynhesach, gan sicrhau bod ceidwaid yn fwy gweladwy, sy'n gallu addysgu a chynghori'r cyhoedd.

Nofio mewn cronfeydd dŵr

43. Nid yw United Utilities na Hafren Dyfrdwy yn caniatáu nofio yn eu cronfeydd dŵr oherwydd y peryglon. Mae Dŵr Cymru wedi adolygu eu safbwynt ar hyn, gan gydnabod y galw gan y cyhoedd i gael mynediad i ddŵr ar gyfer gweithgareddau hamdden gan gynnwys nofio. Fe ddechreuon nhw gyda chynllun peilot yng nghronfa ddŵr Llandegfedd, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn gyda thua 3,500 o bobl yn nofio yno yn ystod y flwyddyn. Fel rhan o'r broses, cafodd y safle achrediad gan SAFE Cymru a chafodd achubwyr bywyd eu hyfforddi. Mae Dŵr Cymru yn ymchwilio i agor pedwar neu bum safle tebyg fel canolfannau ymwelwyr gyda mesurau diogelwch ar waith. Fodd bynnag, roedd Nikki Kemmery yn glir na fyddent am ei annog yn unman arall a byddent yn cyfeirio pobl i fynd i'r cronfeydd dŵr dynodedig lle mae'n ddiogel ac yn cael ei reoli.

Asesiadau risg

44. Mae asesiadau risg yn rhan annatod o'r gwaith o amgylch cronfeydd dŵr a chlywodd y Pwyllgor dystiolaeth bod y rhain yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn drylwyr, o ran eu swyddogaeth weithredol a diogelwch y cyhoedd. Maent yn cynnwys ystyried y lleoliad, mynediad i'r cyhoedd, faint o bobl sy'n ymweld â'r gronfa ddŵr a digwyddiadau blaenorol i nodi'r risg a'r heriau ac ymateb yn unol â hynny.

45. Mae gan Dŵr Cymru 91 o gronfeydd dŵr ac mae gan Hafren Dyfrdwy 19 ohonynt, mewn lleoliadau gwledig a threfol. Mae Dŵr Cymru yn cynnal adolygiad blynyddol, gan ystyried beth ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn flaenorol, trafod unrhyw heriau neu ddigwyddiadau a gwirio'r holl safleoedd. Maent hefyd yn paratoi mesurau tywydd poeth ychwanegol a fydd yn cael eu gweithredu fel y bo'n briodol.

46. Strategaeth Hafren Dyfrdwy i reoli'r risg yw atal mynediad yn y lle cyntaf gyda'u polisi dim nofio. Yr unig fynediad at ddŵr yw drwy weithgareddau wedi'u trefnu trwy ddarparwyr

¹⁵Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 81

yswiriedig sydd â chychod diogelwch, siacedi achub, ac ati. *"We encourage that and we support that..."*¹⁶. Maent yn cynnal adolygiad tymhorol ar ddiwedd cyfnod yr haf wrth ystyried *"what's taken place and ensure we have the right resources and the right focus for the coming year"*¹⁷.

47. Roedd yn amlwg, er y bu cydweithio a sgysiau â'i gilydd o fewn y diwydiant ynghylch atal achosion o foddi, megis yn y grŵp diogelwch cronfeydd dŵr, mai prin fu'r ymgysylltu â Llywodraeth Cymru. Byddai'r ddau gwmni dŵr yng Nghymru yn croesawu cyfle i ddatblygu ffordd o feddwl cydgysylltiedig a chydweithio ag ysgolion, elusennau, cymunedau a Llywodraeth Cymru.

48. Dywedodd RoSPA wrth y Pwyllgor eu bod yn cynnal cronfa ddata'r DU (WAID) a'r Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol (NWSF) sy'n ceisio haneru nifer yr achosion o foddi damweiniol o fewn 10 mlynedd. Roeddent yn falch iawn o rannu bod sector diogelwch y DU wedi dod ynghyd gydag un ymgyrch a neges: **Parchwch y Dŵr**. Maent o'r farn y dylid defnyddio data ynghylch boddi ac achub i lywio asesiadau risg a phenderfynu ble y dylid lleoli offer achub megis cortynnau taflu. Tra eu bod yn credu y byddai'n anymarferol ceisio darparu cortyn taflu ym mhob safle dŵr agored yng Nghymru, maent yn nodi y dylent fod ar gael mewn lleoliadau lle mae hanes o foddi ac achub. At hynny, maent yn datgan y dylid cynnal ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy ddarlledu a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol ar adegau allweddol o'r flwyddyn (cyn, er enghraifft, tywydd poeth y gwanwyn a Gwyliau Banc yr haf).

49. Yn eu tystiolaeth, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn nodi pa mor bwysig yw diogelwch dŵr iddynt hwy a sut maent yn asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyrff dŵr ar y tir y maent yn ei reoli, ar eu strwythurau ar afonydd a'r 42 o gronfeydd dŵr y maent yn berchen arnynt ac yn eu gweithredu.

50. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn rheoli 144,087 hectar o goetir a gwarchodfeydd natur, sy'n cynnwys dros 120 o gyrff dŵr agored. Mae'r rhan fwyaf o dir a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru wedi'i ddynodi neu ei neilltuo fel tir Mynediad Agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, lle mae'r Cod yn benodol yn eithrio nofio heb ganiatâd y tiffeddiannwr ac mae atebolrwydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei leihau.

51. Cynghorodd Cyfoeth Naturiol Cymru Lywodraeth Cymru ynghylch ei chynnig i ehangu mynediad at ddyfrffyrdd mewndirol ar gyfer hamdden, yn dilyn eu gwaith yn arwain y Grŵp Cynghori ar Ddiwygio Mynediad. Fe wnaeth Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru yr Is-grŵp Mynediad at Ddŵr blaenorol gadarnhau y bu'r ffocws ar wella'r defnydd a rennir o ddyfroedd mewndirol rhwng pysgota a chwaraeon padlo, gan geisio datblygu ateb cynaliadwy i'r heriau

¹⁶ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 88

¹⁷ Y Pwyllgor Deisebau, Cofnod y Trafodion, 10 Ionawr 2022, paragraff 96

hanesyddol, gydag adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Gweinidog ei ystyried. Nid oedd ystyriaethau'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd yn rhan o gylch gorchwyl yr is-grŵp.

52. Mewn cronfeydd dŵr a reolir gan Gyfoeth Naturiol Cymru, mae rhaglen asesu risg, archwilio a chynnal a chadw i sicrhau diogelwch. Maent yn rheoli diogelwch gweithgareddau hamdden ar y tir yn ei gofal trwy gymhwyso egwyddorion ac arferion y Grŵp Diogelwch Ymwelwyr. Mae'r Grŵp Diogelwch Ymwelwyr yn gorff yn y DU ac lwerddon sy'n cynnwys aelodau o'r rhan fwyaf o sefydliadau tirfeddianwyr mawr a sefydliadau eiddo hanesyddol y mae modd ymweld â hwy. Mae cyhoeddiad y Grŵp, "Rheoli Diogelwch Ymwelwyr yng Nghefn Gwlad" (fel y'i cefnogir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch), yn nodi egwyddorion ar gyfer cydbwysu'r manteision a'r risgiau i ymwelwyr â chefn gwlad.

53. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal Asesiadau Risg Diogelwch y Cyhoedd ar ei gronfeydd dŵr a'i asedau llifogydd ac yn defnyddio mesurau rheoli, megis arwyddion, ffensys a rhwystrau i gadw'r cyhoedd draw. Fodd bynnag, maent yn rhybuddio, er y gallai darparu cortynnau taflu ymddangos yn ddeniadol a gallant fod yn gam synhwyrol ar adegau, mae yna anawsterau gwirioneddol y mae angen eu hystyried. Gellid ystyried bod darparu cortynnau yn caniatáu i bobl fynd i'r dŵr ac yn annog mynediad heb awdurdod. Gallai canfyddiadau o risg bersonol gael eu lleihau os darperir offer achub cyhoeddus. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cael profiad o fandaliaeth a lladrad pan maent yn darparu offer achub cyhoeddus o'r math hwn mewn safleoedd ymwelwyr. Mae'n costio'n ddrud i'w harchwilio a'u cynnal a chadw'n ddigonol er mwyn sicrhau eu bod ar gael bob amser ac mewn cyflwr da.

54. I'w defnyddio mewn senario yn y gweithle, mae staff Cyfoeth Naturiol Cymru a allai fod yn cymryd rhan mewn sefyllfaoedd lle mae'n rhaid achub pobl o ddŵr yn cael hyfforddiant ac yn ymarfer defnyddio cortynnau taflu yn rheolaidd. Nid yw'n hawdd ac mae methu â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf yn arwain at lai o lwyddiant ar ymdrechion dilynol. Mae'n annhebygol y bydd aelodau'r cyhoedd wedi cael hyfforddiant, ymarfer neu brofiad, ac felly mae'n debygol y bydd yr offer yn llai effeithiol yn gyffredinol.

55. Mae amodau lleol yn cael effaith fawr ar lwyddiant defnyddio cortynnau taflu, fel llystyfiant o amgylch y safle, y pellter at y dioddefwr (e.e. mae'n anodd defnyddio cortyn taflu yn llwyddiannus y tu hwnt i 15m) ac mae pa mor ymwybodol a dealladwy yw'r dioddefwr yn hollbwysig, yn enwedig mewn achosion o sioc dŵr oer.

56. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydnabod bod risg hysbys o foddi ym mhob math o ddŵr ac maent wedi cyhoeddi canllawiau cyffredinol ar eu gwefan fel rhan o negeseuon ehangach y Cod Cefn Gwlad, sef y Cod Nofio yn y Gwyllt. Maent wedi gweithio mewn partneriaeth â Grŵp

Diogelwch Dŵr Cymru i hyrwyddo negeseuon ar y cyd ynghylch y risgiau.¹⁸ Maent hefyd yn gweithio gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub mewn rhai safleoedd arfordirol i ddatblygu asesiadau risg diogelwch traethau, ac yn rhan o Fforwm Rheolwyr Traethau Cymru, ochr yn ochr â swyddogion o Gyngorau Bwrdeistref Sirol, i rannu gwybodaeth am ddiogelwch ac arfer gorau.

57. Fe wnaeth aelodau'r Pwyllgor ymweld â chronfa ddŵr Pontsticill ger Merthyr Tudful a reolir gan Dŵr Cymru, a chyfarfod â Gwyn Thomas, y Pennaeth Rhanddeiliaid a Chysylltiadau Cyhoeddus, Dean Baker, y Rheolwr Iechyd a Diogelwch ac Edward Pritchard, Peiriannydd Cynorthwyol Diogelwch Argaeau. Wrth sefyll wrth ymyl y gronfa ddŵr fawr, daeth rhai o'r heriau a'r cyfleoedd a godwyd yn ystod yr ymchwiliad hwn i'r amlwg. Rydym yn ddiolchgar i Dŵr Cymru am rannu eu barn ac ateb ein cwestiynau.

¹⁸ <https://nrw-newsroom.prgloo.com/news/be-adventure-smart-and-stay-safe-around-water-this-summer-mentron-gall-ac-aros-yn-ddiogel-o-gwmpas-dwr-yr-haf-hwn>

3. Tystiolaeth teuluoedd

58. Cyfarfu aelodau'r Pwyllgor â theuluoedd sydd wedi profi effaith ddinistriol colli anwylyd trwy foddï a diolchwn iddynt am fod yn agored ac am eu hymrwymiad i wella diogelwch dŵr ac osgoi rhagor o farwolaethau trasig. Daeth themâu cyson i'r amlwg o'r trafodaethau ynghylch pryderon allweddol a gwelliannau yr oedd angen eu gwneud.

Arwyddion

59. Rhannwyd pryderon ynghylch diffyg gwybodaeth ac arwyddion gweladwy (neu unrhyw arwyddion), gan gynnwys amharoddrwydd neu wrthodiad gan dirfeddianwyr i godi arwyddion diogelwch ar eu tir neu ailosod arwyddion sydd wedi'u difrodi.

"Where Mark jumped in there was nothing clear at all. There was no throw line. There was no safety ring and it's just kids being kids isn't it. They never think that anything is going to happen to them. They think at that age, they think they're invincible."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

"You know, we tried all sorts of things and I got permission to put signs there and I was told it wasn't good for business locally. Local tourist business."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

Addysg a chodi ymwybyddiaeth

60. Roedd pawb yn argymhell y dylai addysg ar ddiogelwch dŵr gael ei chyflwyno ym mhob ysgol ac o fewn y gymuned ehangach. Roedd yn amlwg y dylai addysg gael ei theilwra i anghenion pobl ifanc, nid yn unig i roi gwybod iddynt sut i fod yn ddiogel yn y dŵr ac o gwmpas y dŵr, sut i barchu a sut i ddefnyddio offer diogelwch ond hefyd edrych ar feysydd fel pwysau gan gyfoedion a bod yn ymwybodol o offer cudd neu drolis siopa wedi'u taflu ac ati yn y dŵr.

"But I think also we need to educate people about the safety equipment. How to use them and respect them. There is a lot of work that needs to be done on the education side, and it needs to be done sooner rather than later."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

61. Mae llawer o'r teuluoedd yn ymgyrchu ac yn darparu sesiynau codi ymwybyddiaeth i ysgolion, cymunedau a sefydliadau gan gynnwys yr heddlu. Maent yn teimlo bod eu profiad personol yn cael effaith ddwys ar bobl ifanc.

"That is exactly what I speak about when I go into schools and I actually do quite a long exercise when I work with younger children as well. I ask them to imagine that they're under the water and what things would be under the water that might be dangerous and we get all sorts of comments."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

62. Mae dysgu sut i nofio yn sgil achub bywyd allweddol sy'n rhan o'r cwricwlwm yng Nghymru ar hyn o bryd. Dylid addysgu plant i nofio 25 metr heb gymorth erbyn iddynt adael yr ysgol gynradd, er mai dim ond tua 70 y cant o blant oedd yn gallu nofio'r pellter hwnnw mewn gwirionedd yn yr astudiaeth ddiweddaraf a gynhaliwyd, ac nid yw hynny'n lefel cyrhaeddiad arbennig o dda. Ac mae gan blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol neu gefndiroedd cymdeithasol-economaidd difreintiedig sgorau is, sy'n destun pryder. Codwyd cwestiynau ynghylch a fyddai hyn yn ofyniad yn y cwricwlwm newydd ac a oes tegwch yn y ddarpariaeth ledled Cymru.

Lleiafrifoedd ethnig a statws economaidd-gymdeithasol

63. Ceir pryderon nad yw'r data o'r brif gronfa ddata ynghylch marwolaethau sy'n gysylltiedig â dŵr yn cynnwys gwybodaeth am ethnigrwydd ar hyn o bryd. O ystyried y pryderon bod llai o blant o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn dysgu nofio a phryderon am nifer y marwolaethau yn ymwneud â phobl o leiafrifoedd ethnig, mae hwn hefyd yn faes i'w archwilio.

Offer diogelwch:

64. Soniodd y teuluoedd am nifer o faterion yn ymwneud â darparu offer diogelwch:

"My brother drowned a long time ago, and it was said that there wasn't enough safety equipment around that harbour around that time. I'm horrified that even 50 years later, this is still a problem."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

65. Er bod galwad glir i osod rhagor o offer diogelwch mewn safleoedd dŵr, fe wnaeth y grŵp gydnabod yr heriau'n ymwneud â fandaliaeth a chynnal a chadw. Roedd yna deimlad bod addysg hefyd yn allweddol wrth ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ynghylch parchu a gwerthfawrogi offer sy'n achub bywydau.

"I think personally it would reduce tampering with such equipment because more people are aware and then if you've got a situation where someone is drowning and someone knows how to use the equipment, potentially a lot more lives are going to be saved."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

66. Mae diffyg cyllid ac adnoddau yn cyfyngu ar y gwaith y gellir ei wneud i wella diogelwch dŵr. Mewn cymhariaeth, mae diogelwch ar y ffyrdd wedi cael llawer iawn o arian gan y llywodraeth drwy wasanaethau heddlu, sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Mae'r gwaith atal a wneir gan y gwasanaethau Tân ac Achub a ariennir gan y llywodraeth hefyd wedi bod yn hynod effeithiol wrth leihau tanau a gwella diogelwch. Yn ystod y drafodaeth gyda theuluoedd, dywedodd Chris Cousens o Diogelwch Dŵr Cymru:

"46 people in Wales drowned last year, which is too many and the reason that that number isn't higher is because of the goodwill of organizations like the RNLI and others and the individuals like Leanne and Debbie and David and Doug who are doing all this work. Not because we spend an awful lot of money on the issue."

67. Cydnabuwyd yr her gan fod llawer o agweddau i'w hystyried, gan gynnwys addysg, diogelwch cymunedol, iechyd y cyhoedd ac atal hunanladdiad. Fodd bynnag, byddai dilyn ôl troed yr Alban, lle mae Water Safety Scotland wedi cael cefnogaeth ddynodedig gan y Gweinidog Diogelwch Cymunedol am y ddwy flynedd ddiwethaf, a'r cyllid sy'n cyd-fynd â hynny, yn gam cadarnhaol ymlaen. Gyda chymorth o'r fath, maent wedi gallu cyflawni llawer mwy.

68. Mae Diogelwch Dŵr Cymru a'r teuluoedd yn atgyfnerthu'r angen am adnoddau a dylanwad i gyflawni'r Strategaeth Atal Boddi yng Nghymru, sydd ar hyn o bryd yn gyfyngedig ac yn cael ei gwneud mewn ffordd dameidiog.

"It's been very humbling and I am quite upset, but it's just been something I've had to do tonight. It's so important. The work that we do at water safety is incredibly important for all."

Ymateb o'r grŵp trafod gyda teuluoedd

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried darparu arweinyddiaeth a chydlyniad clir ar gyfer diogelwch dŵr ac atal achosion o foddi drwy bennu bod Gweinidog penodol yn arwain ar hyn. Ar hyn o bryd, mae'r cyfrifoldebau hyn yn pontio portffolios amrywiol, gan gynnwys diogelwch cymunedol, addysg ac iechyd meddwl, sy'n rhwystro'r ymdrech i symud yr agenda hon yn ei blaen.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ffurfioli'r berthynas â Diogelwch Dŵr Cymru a darparu cyllid digonol i sicrhau bod y Strategaeth Atal Boddi yn cael ei chyflawni'n effeithiol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod rhaglen addysg a diogelwch dŵr gydlynol mewn ysgolion, wedi'i darparu o oedran ifanc. Gall codi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr a meithrin dealltwriaeth o sut i gadw'n ddiogel neu sut i ymateb mewn damwain achub bywydau.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau bod eglurder ynghylch y gofynion sylfaenol o ran gwybodaeth diogelwch ac arwyddion o amgylch cyrff o ddŵr i godi ymwybyddiaeth o'r risgiau sy'n bresennol i'r rhai sy'n mynd i'r dŵr. Mae gwybodaeth weladwy o ansawdd da wedi'i nodi fel rhywbeth hanfodol, ond roedd pryder ynghylch diffyg gwybodaeth o'r fath mewn lleoliadau allweddol. Dyma un o nifer o fesurau rheoli a nodwyd fel rhan o asesiadau risg trylwyr ar gyfer cyrff o ddŵr.

Argymhelliad 5. Dylai Llywodraeth Cymru gydlynu cysylltiadau ffurfiol rhwng Is-grŵp Mynediad at Ddŵr y Fforwm Mynediad Cenedlaethol i Gymru a Diogelwch Dŵr Cymru.

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, sy'n cynnwys yr holl sefydliadau perthnasol, er mwyn cyflwyno neges bwerus a chyson am ddiogelwch dŵr. Ar hyn o bryd mae cwmnïau dŵr, elusennau a sefydliadau amrywiol a theuluoedd yn gweithio'n galed i godi ymwybyddiaeth, addysgu a chyrraedd y cyhoedd i gyd. Gallai ymgyrch gydgysylltiedig fod yn fwy effeithiol a gallai sicrhau bod y neges yn gyson.

Atodiad A: Tystiolaeth dderbyniwyd yn ystod yr ymchwiliad

Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
10 Ionawr 2022	Bleddyn Jones, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru Chris Cousens, Diogelwch Dŵr Cymru (Cadeirydd) Paula Steer, United Utilities Nikki Kemmery, Dŵr Cymru Dominic Robinson, Hafren Dyfrdwy a Severn Trent

Grŵp trafod ar-lein gyda teuluoedd sy'n ymwneud â Diogelwch Dŵr Cymru -25 Mai 2022

Aeth Aelodau i ymweld â Cronfa Ddŵr Pontsticill -16 Mai 2022

Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Teitl	Dyddiad
Llythyr i'r Cadeirydd gan y Royal Society for the Prevention of Accidents (RoSPA)	7 Ionawr 2022
Llythyr i'r Cadeirydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru	7 Chwefror 2022